**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor y Rhaglen Chraffu

**Ystafell Bwyllgor 3A, Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Llun, 11 Medi 2017 am 4.30 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd M H Jones (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| Y Cynghorydd(wyr) | Y Cynghorydd(wyr) | Y Cynghorydd(wyr) |
|---|---|---|
| C R Evans | E W Fitzgerald | L S Gibbard |
| T J Hennegan | C A Holley | P Jones |
| E J King | I E Mann | W G Thomas |

| Aelodau Cyfetholedig | Aelodau Cyfetholedig | Aelodau Cyfetholedig |
|---|---|---|
| D Anderson-Thomas | P M Black | P R Hood-Williams |
| J. W. Jones | | |

**Hefyd yn bresennol**

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd Rob Stewart | Arweinydd/Aelod y Cabinet dros yr Economi a Strategaeth |
| Y Cynghorydd Mark Child | Aelod y Cabinet dros Iechyd a Lles |
| Y Cynghorydd Clive Lloyd | Dirprwy Arweinydd/Aelod y Cabinet dros Wasanaethau, Trawsnewid a Gweithrediadau Busnes |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Sarah Caulkin | Cyfarwyddwr Adnoddau Dros Dro |
| David Howes | Prif Swyddog y Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Kate Jones | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Brij Madahar | Arweinydd y Tîm Craffu |
| Huw Mowbray | Rheolwr Datblygu Eiddo |
| Gordon Randelsome | Uwch-beiriannydd |
| Debbie Smith | Pennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau Cyfreithiol, Democrataidd a Deallusrwydd Busnes |
| Alun Thomas | Arweinydd Tîm Goruchwyliwr Safle |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): C Anderson, J P Curtice, D W Helliwell, B Hopkins a G J Tanner

---

## 29 Derbyn Datgeliadau o Fuddiannau Personol a Rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 30 Gwahardd pleidleisiau chwip a datgan chwipiau'r pleidiau.

Yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o bleidleisiau chwip na chwipiau'r pleidiau.

## 31 Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod Pwyllgor y Rhaglen Graffu a gynhaliwyd ar 14 Awst 2017 fel cofnod cywir, yn amodol ar 2 gywiriad: -

1) Cofnodion 23 a 24 - newid y cyfeiriad at 17 Mawrth 2017 i 17 Awst 2017
2) Eitem ychwanegol – Diolchwyd i'r aelodau a'r staff gan y cadeirydd am eu hamynedd a'u hymdrechion yn ystod cyfarfod mor hir.

## 32 Cwestiynau gan y cyhoedd.

Clywodd y pwyllgor gan Mr East a gododd sawl mater.

Nododd Mr East fod yr AS dros Orllewin Abertawe wedi bod yn ymgyrchu dros gynnal refferendwm ar amodau terfynol Brexit. Roedd pryderon ganddo fod Brexit yn debygol o gael canlyniadau difrifol i Gymru ac ar gyfer Abertawe. Gofynnodd Mr East am farn yr Arweinydd ar y mater hwn, gan annog yr Arweinydd i gefnogi AS Gorllewin Abertawe.

Gwnaeth sylwadau ar y newyddion ynghylch adfywio mawr yng nghanol y ddinas, gan geisio sicrwydd y dysgwyd gwersi yn dilyn problemau neu drafferthion y gorffennol. Er enghraifft, cyfeiriodd at y canlynol: Dymchwel Oceana – cododd y gost o oddeutu £1 miliwn i £4 miliwn; Oedi adeiladu hir wrth adnewyddu Oriel Gelf Glynn Vivan; Chwilio am Safleoedd i Deithwyr – proses helaeth i nodi safleoedd a llunio rhestr fer, at ba gost?; Anghydfod Rhent Tir yr Elba – at ba gost i'r trethdalwr? Teimlodd Mr East fod gan y cyhoedd ddiffyg gwybodaeth o ran rhai prosiectau lle cafwyd problemau.

Gofynnodd Mr East am ddiweddariad ar Stadiwm Liberty oherwydd disgwyliwyd cynnydd dros flwyddyn yn ôl mewn perthynas â'r brydles ac ni ddarparwyd unrhyw wybodaeth ychwanegol ers hynny. Nododd hefyd y byddai Clwb Pêl-droed Dinas Abertawe yn cymryd uned yng nghanol y ddinas i werthu nwyddau, ac ymholodd am drefniadau rhentu'r uned yn ogystal â'r stadiwm.

Rhoddwyd diweddariad gan y Dirprwy Arweinydd ar Stadiwm Liberty ac esboniodd eu bod yn rhwym i'r cytundeb yr ymrwymwyd iddo gan y weinyddiaeth flaenorol. Mae cynnydd yn cael ei wneud o ran cytundeb newydd ac mae trafodaethau wedi dwyn ffrwyth. Nid oedd yn bosib darparu mwy o wybodaeth ar hyn o bryd oherwydd ei bod yn drafodaeth barhaus ond y gobaith oedd y gellid eu cwblhau yn y misoedd nesaf a gwneud cyhoeddiad.

O ran y siop yng nghanol y ddinas, cadarnhaodd y Dirprwy Arweinydd y byddai Clwb Pêl-droed Dinas Abertawe yn talu rhent a oedd yn cydymffurfio â rhenti'r farchnad ar gyfer yr uned fanwerthu.

**Penderfynwyd** cyfeirio'r cwestiynau a holwyd i'r Arweinydd/Aelod y Cabinet perthnasol am ymateb.

## 33 Sesiwn Holi Aelod y Cabinet: Aelod y Cabinet Dros Wasanaethau, Trawsnewid a Gweithrediadau Busnes. (y Cynghorydd Clive Lloyd, Dirprwy Arweinydd)

Rhoddwyd cyflwyniad llafar gan y Cynghorydd Clive Lloyd, Dirprwy Arweinydd ac Aelod y Cabinet dros Wasanaethau, Trawsnewid a Gweithrediadau Busnes a oedd yn atodol i'r adroddiad ysgrifenedig a ddosbarthwyd. Siaradodd am ei bortffolio a'i deitl newydd, gan amlygu'r meysydd canlynol: -

- Perfformiad Cyllidebol a Chyllid – Nid oedd y Dirprwy Arweinydd yn disgwyl setliad ariannol cadarnhaol gan Lywodraeth Cymru/Llywodraeth y DU. Os mai'r un setliad ariannol a geir â llynedd, yna byddai bwlch cyllido o oddeutu £16 miliwn.

- Cyflwyno a Pherfformiad – Cafwyd cytundeb ar y Cynllun Corfforaethol diwygiedig a byddai adroddiadau monitro perfformiad chwarterol ar y blaenoriaethau allweddol.

- Abertawe Gynaliadwy/Addas at y Dyfodol – Roedd y rhaglen bellach yn gweithredu ar draws tri maes eang, sef Trawsnewid, Cyngor y Dyfodol a Digidol. Nodwyd bod y Rhaglen Cefnogi Busnes wedi bod yn gwneud cynnydd. Amlygwyd hefyd fuddsoddiad a chynnydd yr agenda ddigidol, ynghyd â'r gwobrau APSE (Cymdeithas Rhagoriaeth mewn Gwasanaethau Cyhoeddus) a enillwyd gan Reoli Gwastraff ac Atgyweirio Tyllau yn y Ffyrdd.

Roedd y cwestiynau a'r trafodaethau â'r Aelod y Cabinet yn canolbwyntio ar y canlynol: -

- Y Gronfa Bensiwn - cynnydd ar ddadfuddsoddi mewn tanwydd ffosil a chydbwyso ag unrhyw bolisi buddsoddi ethig
- Pwysau ar gyllidebau ac arbedion
- Effaith y newidiadau ar y Tîm Datblygu Cynaliadwy y cytunwyd arnynt gan y Cabinet (yn dilyn Adolygiad Comisiynu Cynllunio ac Adfywio'r Ddinas)
- Rôl yr Uned Cyflwyno Strategol
- Problemau gyda'r Polisi Trosglwyddo Asedau Cymunedol a'r camau gweithredu er mwyn mynd i'r afael â'r problemau hynny
- Ymgynghoriad ar safleoedd bach a nodwyd yn yr Adolygiad Cyffredinol o holl dir y cyngor
- Dyfodol Cymunedau'n Gyntaf
- Pwyllgorau Datblygu a Chyflwyno Polisïau – eu rôl, eu llywodraethu a'u heffeithiolrwydd
- Paratoadau ar gyfer deddfwriaeth newydd ar ddiogelu data

**Penderfynwyd** y bydd Cadeirydd Pwyllgor y Rhaglen Graffu'n ysgrifennu at Aelod y Cabinet, gan adlewyrchu'r drafodaeth a rhannu barn y pwyllgor.

**34 Adroddiad Blynyddol Diogelu Corfforaethol 2016/17.**

Cyflwynwyd Adroddiad Blynyddol ar Ddiogelu Corfforaethol 2016/2017 gan Aelod y Cabinet dros Iechyd a Lles ac Uwch-swyddog y Gwasanaethau Cymdeithasol.

Amlygwyd gan Uwch-swyddog y Gwasanaethau Cymdeithasol mai rhan allweddol o'r agenda oedd bod yr holl aelodau yn ogystal â staff yn ymgymryd â hyfforddiant diogelu ac anogwyd aelodau i gwblhau hyn os nad oeddent eisoes wedi gwneud hynny.

Rhoddwyd cefndir i'r Grŵp Llywio Diogelu Corfforaethol a'i Adroddiad Blynyddol gan Uwch-swyddog y Gwasanaethau Cymdeithasol. Rhai o'r meysydd gwaith a amlygwyd oedd: -

- Polisi Diogelu
- Trefniadau caffael
- Cryfhau trefniadau diogelu

Roedd y cwestiynau a'r trafodaethau gydag Aelod y Cabinet ac Uwch-swyddog y Gwasanaethau Cymdeithasol yn canolbwyntio ar y canlynol: -

- Problemau wrth gysylltu systemau gwybodaeth a allai effeithio ar gywirdeb y cofnodion hyfforddiant diogelu i staff – trafodwyd y pwysigrwydd o dderbyn lefel briodol o hyfforddiant, yn hytrach na'r lefel isaf, wrth ymdrin â phobl ddiamddiffyn
- Camau gweithredu sy'n cael eu cymryd er mwyn gwella ansawdd gwybodaeth perfformiad am ansawdd ein trefniadau diogelu
- Problemau yn ymwneud â'r ffaith nid oes gan yr holl staff fynediad i e-ddysgu
- Penodi uwch swyddogion diogelu ym mhob uned gwasanaeth
- Effeithiolrwydd trefniadau Bwrdd Rhanbarthol ar gyfer Diogelu ac Amddiffyn y Cyhoedd a'u perthynas â gweithio lleol
- Sicrwydd o ran ymrwymiad partneriaid i ddiogelu a chynnydd wrth sicrhau bod contractwyr yn cydymffurfio
- Darparu hyfforddiant arbenigol i yrwyr tacsis
- Trefniadau ar gyfer hyfforddiant i gynghorwyr a rhwystrau i gyfranogiad
- Hyfforddiant magwraeth gorfforaethol a chynadleddau achos
- Sefyllfa hyfforddiant diogelu mewn perthynas â staff asiantaeth, yn enwedig staff asiantaeth tymor byr/dros dro/tymhorol.
- Meincnodi – diffyg data cenedlaethol i alluogi cymhariaeth ag eraill
- Rôl y pwyllgor wrth ddarparu sicrwydd ar effeithiolrwydd trefniadau diogelu – dywedodd yr Uwch-swyddog ei fod yn teimlo bod yna drefniadau craffu cadarn ar gyfer y Gwasanaethau i Oedolion a'r Gwasanaethau Plant a bod diogelu'n nodwedd amlwg. Penderfyniad y pwyllgor oedd herio'r darlun cyffredinol a sicrhau ffocws parhaus ar ddiogelu.

**Penderfynwyd** nodi barn y pwyllgor ar yr adroddiad gan Aelod y Cabinet a'r Uwch-swyddog.

## 35 Aelodaeth Paneli Craffu a Gweithgorau.

Cyflwynodd y Cadeirydd adroddiad a oedd yn amlinellu diwygiadau arfaethedig i aelodaeth y panel craffu.

**Penderfynwyd** cymeradwyo'r newidiadau canlynol i'r aelodaeth, fel a amlinellwyd yn yr adroddiad:

Panel Datblygu a Pherfformiad Adfywio
Ychwanegu'r Cynghorydd David Helliwell

Panel Perfformiad y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd
Tynnu'r Cynghorydd Mary Jones

Panel Perfformiad Ysgolion
Ychwanegu'r Cynghorydd Myles Langstone
Tynnu enw'r Cynghorydd Sam Pritchard

## 36 Rhaglen Waith Craffu 2017/18.

Cyflwynodd y Cadeirydd y Rhaglen Waith Craffu ar gyfer 2017/2018 am adolygiad.

Amlygodd Arweinydd y Tîm Craffu fod Aelod y Cabinet dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes yn ymuno â'r cyfarfod pwyllgor nesaf, ac anogwyd aelodau'r pwyllgor i feddwl am gwestiynau ar gyfer y sesiwn honno.

Nododd y pwyllgor hefyd y byddai cyfarfod ychwanegol yn cael ei gynnal nos Fawrth, 17 Hydref am 4.30pm, ar gyfer craffu cyn penderfynu adroddiad ar adfywio Sgwâr y Castell, a drefnwyd ar hyn o bryd ar gyfer cyfarfod y Cabinet ar 19 Hydref.

**Penderfynwyd** y dylid nodi cynnwys yr adroddiad.

## 37 Cynllun Gwaith y Pwyllgor Archwilio. (Er Gwybodaeth)

Nodwyd Cynllun Gwaith y Pwyllgor Archwilio.

## 38 Dyddiad ac Amser Cyfarfodydd Paneli / Gweithgorau Sydd ar Ddod.

Nodwyd dyddiad ac amser paneli/gweithgorau sydd ar ddod.

## 39 Gwahardd y Cyhoedd.

Gofynnwyd i'r Cabinet wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod er mwyn iddo ystyried yr eitemau busnes a nodwyd yn argymhellion yr adroddiad ar y sail eu bod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel y nodir ym mharagraff gwahardd 14A Deddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad i Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007 mewn perthynas ag eitemau busnes a nodir yn yr adroddiad.

Ystyriodd y Cabinet Brawf Budd y Cyhoedd wrth benderfynu a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes lle'r oedd Prawf Budd y Cyhoedd yn berthnasol fel y nodir yn yr adroddiad.

**Penderfynwyd** y dylid gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitem fusnes ganlynol.

**40 Dymchwel Adeilad Oceana – Cwestiynau I Aelod y Cabinet Dros yr Economi a Strategaeth. (y Cyngorydd Rob Stewart, Arweinydd)**

Trafodwyd materion a oedd yn gysylltiedig â’r arolwg asbestos/dyrannu contract a goblygiadau ariannol mewn perthynas â dymchwel adeilad Oceana. Gofynnwyd sawl cwestiwn i’r Arweinydd a Swyddogion a oedd yn bresennol ac fe’u hatebwyd yn briodol.

**Penderfynwyd** y byddai cadeirydd Pwyllgor y Rhaglen Graffu’n ysgrifennu at yr Arweinydd, gan adlewyrchu’r drafodaeth a barn y pwyllgor ar y mater hwn.

Daeth y cyfarfod I ben am 6.30 pm

**Cadeirydd**